| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | 4. Teimladau Dylan Thomas (CA2) |
| Disgrifiad: | Llafaredd - Gweithgaredd y Gadair Goch. |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**<br>*Siarad:<br>Bl3:<br>• cadw mewn rôl a chynorthwyo eraill wrth chwarae rôl.<br>Bl4:<br>• archwilio sefyllfaoedd gwahanol drwy chwarae rôl.<br>Bl5:<br>• archwilio dadleuon a themâu drwy chwarae rôl.<br>Bl6:<br>• archwilio materion heriol neu ddadleuol drwy barhau i gynnal y rôl y maent yn ei chwarae.<br>*Gwrando:<br>Bl3:<br>• gwirio eu bod yn deall drwy ofyn cwestiynau perthnasol neu gynnig sylwadau perthnasol.<br>Bl4:<br>• ar ôl gwrando, ymateb gan fynegi barn am yr hyn y mae'r siaradwr wedi'i ddweud.<br>Bl5:<br>• gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a safbwyntiau'r siaradwr.<br>Bl6:<br>• ymateb i eraill gyda chwestiynau a sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a chamau nesaf.<br><br>*Cydweithio a thrafod:<br>Bl3:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth.<br>• siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg mewn grŵp.<br>Bl4:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan helpu pawb i gymryd rhan.<br>• helpu grŵp i ddod i gytundeb.<br>Bl5:<br>• cyfrannu i drafodaeth grlp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda.<br>• ychwanegu at a datblygu syniadau dysgwyr eraill mewn trafodaethau grŵp.<br>Bl6:<br>• cyfrannu'n bwrpasol i drafodaeth grŵp er mwyn dod i'r canlyniadau y |

| | |
|---|---|
| | cytunwyd arnynt.<br>• codi pwyntiau o drafodaeth grŵp, gan gytuno neu anghytuno a rhoi rhesymau. |

| | |
|---|---|
| Testun Dylan Thomas | A Visit to Grandpa's<br>Darn o'r dechrau i dudalen 34 (*...with a rabbit held as gently over his arm in a warm sleeve.)* |
| Offer angenrheidiol: | • Copïau o'r testun<br>• Enghraifft o graff 'Llinell Ffawd' *Atodiad 1a*<br>• Dalen fawr o bapur neu dempled graff 'Llinell Ffawd' (gellid ei ddefnyddio yng Ngwaelod CA2) *Atodiad 1b*<br>• Peniau marcio lliw |
| Trefn a awgrymir: | • Mewn grwpiau bach mae'r disgyblion yn creu llinell ffawd o deimladau Dylan Thomas wrth i'r stori fynd yn ei blaen. (gweler yr enghraifft - *Atodiad 1a*) Trafodwch y symbolau y gellid eu defnyddio gydag allwedd a geiriau eraill am 'hapus' a 'trist' (ar gyfer Top CA2)<br>• Defnyddiwch ben lliw gwahanol i fynd ati wedyn i ychwanegu teimladau Grandpa ar yr un adegau.<br>• Wedyn gallai dysgwyr Bl.5 a 6 anodi'r graff â dyfyniadau/tystiolaeth o'r testun i gefnogi eu syniadau.<br>• Gan ddod at ei gilydd fel dosbarth cyfan, mae'r plant yn gosod Grandpa a Dylan Thomas yn y gadair goch. Gallan nhw ddod ynghyd â syniadau am deimladau'r cymeriad o'r graff a sesiynau blaenorol i holi cwestiynau penagored. |
| Gweithgareddau estyn: | • Gellir rhoi datganiadau i'r dysgwyr sy'n ymwneud â chyd-destun y stori ac mae'n rhaid iddynt benderfynu ble ar y graff y byddent yn mynd, e.e. Mae Dylan yn poeni am Grandpa – "Is anything the matter, Grandpa?"; Grandpa yn ymddwyn fel petai dim wedi digwydd – "There was a terrible loud wind last night..."<br>• Rhagfynegwch ble byddai llinellau'r graff yn mynd ar ddiwedd y stori.<br><br>Defnyddio'r cyfryngau digidol: Gall y dysgwyr ddefnyddio aps *Moxier Collage* neu *Sticky Notes* apps i wneud nodiadau am y cwestiynau yr hoffen nhw eu gofyn. Gallen nhw ffilmio'r sesiwn gadair goch a'i rhoi mewn *iMovie* neu *Puppet Pals*. |
| Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill: | Gellir addasu'r graff fel y nodir uchod ar gyfer Top/Gwaelod CA2. |